



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Trwyddedau a gyhoeddwyd yn 2019 i ddefnyddio trap cawell i ddal moch daear, marcio moch daear a lladd/cymryd moch daear i atal lledaeniad afiechyd**

Fel rhan o'r Rhaglen, sydd wedi'i gryfhau, i Ddileu TB, rhoddir trwyddedau i farcio, maglu a chymryd moch daear i atal lledaeniad clefyd ar ffermydd sydd â buchesi ag achosion TB cronig. Dim ond moch daear a ddalwyd sydd wedi'u profi yn bositif am TB sydd yn cael eu lladd yn ddi-boen.

Rhoddwyd trwyddedau i chwe daliad fel rhan o'r rhaglen. Roedd y chwe thaliad mewn ardaloedd sydd â risg uchel mewn perthynas â TB, ac yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd tir o 982 hectar.

Roedd y cyfnodau trwyddedu ar gyfer y trwyddedau a gyhoeddwyd fel a ganlyn:-

1. Roedd y drwydded gyntaf rhwng 27 Mai 2019 a 31 Rhagfyr 2019.
2. Roedd yr ail drwydded rhwng 27 Mai 2019 a 31 Rhagfyr 2019.
3. Roedd y drydedd drwydded rhwng 10 Mehefin 2019 a 31 Rhagfyr 2019.
4. Roedd y pedwaredd drwydded rhwng 24 Mehefin 2019 a 31 Rhagfyr 2019.
5. Roedd y pumed drwydded rhwng 8 Gorffennaf 2019 a 31 Rhagfyr 2019.
6. Roedd y chweched drwydded rhwng 22 Gorffennaf 2019 a 31 Rhagfyr 2019.